

Ffurflen Asesiad Effaith Tegwch a Chydraddoldeb Cyngor Dinas Casnewydd (AETaCh)

Mae'r ffurflen hon yn asesu'r polisi neu'r newid arfaethedig i ganfod a yw'n hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb a bod y canlyniadau ar gyfer pobl Casnewydd wedi'u hystyried yn llawn. Dylai canlyniad yr Asesiad Effaith hwn ddylanwadu ar benderfyniadau polisi a chynllunio gwasanaethau'r dyfodol.

Yng Nghasnewydd rydym yn canolbwyntio ar degwch trwy'r themâu canlynol: Anghydraddoldebau Iechyd, Tlodi Plant, Sgiliau a Gwaith, Trechu Trais Domestig, Cam-drin Alcohol a Sylweddau, Digartrefedd, Cyn-bersonel y Lluoedd Arfog.

Daw ein materion Cydraddoldeb o Ddeddf Cydraddoldeb 2010: rydym yn ystyried y 9 nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig - oed, rhyw, anabledd a gofalyddion a'r iaith Gymraeg gan asesu a yw'r polisi neu'r newid yn hyrwyddo'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
- Gwella cyfleoedd cyfartal
- Meithrin perthnasau da

Service Area Education Service	Pennaeth Gwasanaeth: Prif Swyddog Addysg	Person sy'n gyfrifol am yr asesu: Pennaeth Cynorthwyol Addysg (Adnoddau a Chynllunio)	Dyddiad yr Asesiad TERFYNOL: Gorffennaf 2015 Adolygwyd Mawrth 2017	
Enw'r cynnig i'w asesu: Ysgol Uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig i'w lleoli yng Nghasnewydd ar gyfer disgyblion o bob cwr o'r rhanbarth.			Ai polisi/arfer sy'n bodoli eisoes neu newid arfaethedig yw hwn?	Newid arfaethedig yw hwn. Yn nodi'r cyllid cynyddol i ddarparu'r ysgol.

<p>1. Yn fras, disgrifiwch y canlyniadau rydych yn chwilio amdanynt gan y polisi / yr arfer / y cynnig. Os yw'r polisi / yr arfer / neu'r cynnig yn destun adolygu, rhestrwch unrhyw opsiwn sy'n cael ei ystyried</p>	<p>Y cynnig yw agor ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion o bob cwr o'r rhanbarth er mwyn rheoli'r galw cynyddol. Mae'r broses o sefydlu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cynnwys: derbyn buddsoddiad cyfalafol a dilyn y broses ymgynghori statudol. Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cyflwyno pob achos busnes Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cymeradwyo gan Banel Cyfalaf LIC – Achos Amlinellol Strategol; Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Cyflawn. Dygwyd y broses ymgynghori statudol yn ei flaen yn dilyn canlyniad dau wrthwynebiad ffurfiol i'r cynnig. Erbyn hyn, bydd y Cabinet Llawn yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran a ddylai'r cynnig hwn gael ei gymeradwyo a'r ysgol ei sefydlu.</p>
<p>2. Nodwch unrhyw bolisi, deddfwriaeth, amcan corfforaethol cysylltiedig ayyb.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Integredig Sengl • Prosectws Newid - Gwella Bywydau Pobl • Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru • Cod Statudol Trefniadaeth Ysgol Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2013 • Cynllun Strategol Addysg Gymraeg – diweddariad mis Mai 2015 • Cynllun Gwella Cyngor Dinas Casnewydd • Cynllun Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd • Cynllun Gwella Gwasanaeth Addysg • Trefniadaeth Ysgol a Chynllunio lleoedd ysgol • Rhaglen Amlinellol Strategol Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif • Estyniad i Raglen Amlinellol Strategol Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif • Achos Amlinellol Strategol Rhanbarthol Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif • Achos Busnes Amlinello Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif • Achos Busnes Cyflawn Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif • Cynllun Plant a Phobl Ifainc <p>Dyletswydd statudol</p>

<p>3. Pwy yw'r prif randdeiliaid o ran y polisi / yr arfer?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwyddwyr Consortiwm De-ddwyrain Cymru • Aelod Cabinet dros Addysg a Phobl Ifainc, Cyngor Dinas Casnewydd • Aelod Cabinet dros Addysg, Cyngor Sir Fynwy • Cabinet awdurdodau lleol i gefnogi buddsoddi cyfalaf mewn opsiwn rhanbarthol • Staff / disgyblion / rhieni / llywodraethwyr ysgolion Cynradd cyfrwng Cymraeg • Staff / disgyblion / rhieni / llywodraethwyr ysgolion Uwchradd cyfrwng Cymraeg • Penaethiaid y rhanbarth / staff ysgolion / disgyblion / rhieni / llywodraethwyr • Coleg Gwent • Ysgol Uwchradd Dyffryn / staff yr ysgol / disgyblion / rhieni / llywodraethwyr • Y gymuned sy'n gyfagos i leoliad yr ysgol arfaethedig • Grŵp Cynllunio Rhanbarthol addysg cyfrwng Cymraeg
<p>4. Pwy sy'n darparu'r gwasanaeth?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Awdurdod Lleol perthnasol (yn nhermau gwneud penderfyniad, cynllunio, derbyn ysgol, cludiant ac ymgynghori ac ymgysylltu'r cynnig) • Corff Llywodraethu dros dro ar gyfer yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd • Pennaeth / staff / disgyblion / rhieni safle'r ysgol uwchradd newydd arfaethedig • Staff / disgyblion / rhieni ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer pontio

<p>5. Pa ffactorau allai gyfrannu at y canlyniadau / tynnu oddi ar y canlyniadau (risgiau / cyfleoedd)?</p> <p>Rhestrwch y ffactorau ar gyfer pob opsiwn polisi / proses unigol i'w hystyried</p>	<p>Cyllid LIC ac ALI – mae popeth yn ei le a'r holl gyllid wedi'i gymeradwyo Gwrthwynebiadau i'r cynigion – derbyniwyd dau wrthwynebiad ffurfiol yn ystod y broses Recriwtio staff – i'w ystyried os caiff yr ysgol ei sefydlu Lleoliad yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig</p> <p>Mewn achos o beidio â chyflenwi'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, ni fyddai unrhyw un o'r awdurdodau lleol yn Ne-ddwyrain Cymru yn diwallu ei flaenoriaeth bod modd i bob plentyn sydd am dderbyn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth barhau i'w derbyn a'i bod o safon uchel. O ganlyniad i hyn, mae cynlluniau wrth gefn mewn lle ar draws y rhanbarth.</p>
<p>6. Disgrifiwch y camau rydych chi wedi'u cymryd i gynnal yr asesiad hwn e.e. ymgynghori ac ymgysylltu</p>	<p>Ymgwymerwyd ag arfarnu a sgopio'r opsiwn cyflawn mewn cydweithrediad â chynghorwyr yn y maes arbenigol addysg cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Derbyniodd Cyngor Dinas Casnewydd gymeradwyaeth ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Estyniad i Raglen Amlinello Strategol Y21G i gefnogi cyllid cyfalaf ar gyfer opsiwn a ffefrir yng Nghasnewydd • Achos Amlinellol Strategol i gefnogi cyllid cyfalaf ar gyfer datrysiad Casnewydd a fyddai hefyd yn cefnogi Ysgol Y Ffin yn Ne Sir Fynwy • Achos Busnes Amlinellol rhanbarthol • Achos Busnes Cyflawn <p>Cynhaliwyd y broses ymgynghori statudol gyflawn yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru: Cod Statudol, Gorffennaf 2013.</p>

7. Rhowch grynodedb o'r wybodaeth y mae'r cyngor wedi'i ystyried ar gyfer yr asesiad hwn

Data Cynllunio Lleoedd Ysgol, Cynradd i Uwchradd – Adnabod niferoedd rhagamcanol tan 2016 gan ddefnyddio data am ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg ynghyd ag unrhyw ymestyn arfaethedig.

Aseidiadau Effaith Gymunedol / Iaith Gymraeg.

Cod Trefniadaeth Ysgolion Statudol Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2013

Gwasanaethau AAY / Cynhwysiant a Gwasanaeth Addysg Aml-ethnig Gwent i'w darparu trwy'r opsiwn a ffefrir.

Mae'r FEIA hwn wedi'i adolygu ar ôl cyllid ychwanegol Y21ain LIC, ac mae'r canlyniadau sydd o hyd yn gadarnhaol yn adran 12.

**8. Ydy'r cynnig yn hyrwyddo
Cydraddoldeb trwy:**

- 1. hyrwyddo perthnasau cymunedol da
(cydlyniant cymunedol)**
- 2. hyrwyddo cydraddoldeb**
- 3. dileu gwahaniaethu**

- **Oed**
- **Rhyw**
- **Ailbennu rhywedd**
- **Anabledd**
- **Yn briod / partneriaeth sifil**
- **Beichiogrwydd a Mamolaeth**
- **Hil**
- **Crefydd / Cred**
- **Yr iaith Gymraeg**
- **Tueddfryd rhywiol**

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i sicrhau mynediad cydradd i'w ysgolion a'i wasanaethau i bob un o'i randdeiliaid. Mae'n hanfodol bod unrhyw

ysgol newydd n hygyrch i bawb beth bynnag y rhyw, anabledd, hil, crefydd, statws priodasol / partneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, tueddfryd rhywiol neu'r gallu.

Bydd y datblygiad ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg arfaethedig yn hygyrch i bob disgybl o oed ysgol uwchradd ar draws rhanbarth De Gwent beth bynnag y rhyw, anabledd, hil, crefydd, beichiogrwydd, tueddfryd rhywiol neu'r gallu.

I ddechrau, bydd yn ysgol eginblanhigyn neu ysgol sy'n tyfu ac yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl ei sefydlu, bydd yn derbyn cyfanswm o ryw 90 o ddisgyblion grŵp oedran Blwyddyn 7. Byd dyr ysgol yn tyfu bob blwyddyn hyd at boblogaeth ysgol lawn o ryw 900 o ddisgyblion.

Ni fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith sylweddol neu yn cael effaith niweidiol ar unrhyw rhanddeiliad arall beth bynnag y rhyw, anabledd, hil, crefydd, beichiogrwydd, tueddfryd rhywiol neu'r gallu.

Mae'r cynnig hwn yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol, cydraddoldeb ac yn dileu gwahaniaethu yn enwedig o ran darpariaeth iaith Gymraeg.

<p>9. Ydy'r cynnig yn effeithio ar degwch o ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anghydraddoldebau lechyd • Tlodi Plant • Sgiliau a Gwaith • Trechu Trais Domestig • Cam-drin Alcohol a Sylweddau • Digartrefedd • Y Lluedd Arfog • Materion tegwch eraill 	<p>Cafodd y cyflwyniadau achos busnes i Banel Cyfalaf Lywodraeth i gynnig yr opsiwn a ffeirir eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Bydd datblygu'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yng Nghasnewydd yn cynorthwyo o ran gwella deilliannau a chyfleoedd bywyd i bobl yng Nghasnewydd a De Sir Fynwy yn enwedig o ran Anghydraddoldebau lechyd, Tlodi Plant a Sgiliau a Gwaith.</p>
<p>10. Ydy'r cynnig yn effeithio ar ardaloedd lleol mewn ffyrdd gwahanol?</p> <p>Os ydy, a yw'n cael effaith gadarnhaol neu effaith negyddol yn nhermau tegwch a mynd i'r afael ag amddifadedd yn yr ardal leol?</p>	<p>Bydd yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn hygyrch i bob disgybl o fewn Casnewydd a De Sir Fynwy beth bynnag y lefelau amddifadedd felly ni fydd yn effeithio ar ardaloedd lleol mewn ffyrdd gwahanol.</p>
<p>12. Crynodeb Rhowch grynodeb o'r 3 ateb diwethaf (8, 9 a 10) A oes gan y cynnig ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer yr holl bobl a chymunedau ar y grwpiau ar sail Cydraddoldeb a Thegwch Os na, pam, a beth yw'r camau lliniaru?</p>	<p>Bydd yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn cynnig canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl a chymunedau, nid yn unig yng Nghasnewydd a De Sir Fynwy ond ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru.</p> <p>Mae'r FEIA hwn wedi'i adolygu ac mae'r datganiad uchod dal yn wir.</p>

**13. Adrodd, monitro a gwerthuso'r canlyniad. I ble mae'r Asesiad Effaith Tegwch yn cael ei Adrodd?
Sut y bydd camau gweithredu sy'n deillio yn cael eu monitro?
Pryd fydd y canlyniadau yn cael eu gwerthuso?**

Mae'r Asesiad Effaith tegwch a Chydraddoldeb hwn wedi'i adolygu a'i adrodd i'r Aelod cabinet dros Addysg a Phobl Ifainc ar bob cam. Caiff ei ddarllen gan y Cabinet llawn cyn i'r penderfyniad terfynol am y cynnig gael ei wneud o ran sefydlu'r ysgol newydd hon.

Mae pob mater ac, yn enwedig, unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, eu gwerthuso cyn i'r Cabinet wneud y penderfyniad terfynol.

Mae'r AETaCh hwn wedi'i gyhoeddi yn dilyn pob diweddariad ar wefan y cyngor ac ar gael i'r cyhoedd. Hwn yw'r AETaCh terfynol ar gyfer y cynnig hwn.

Mae'r FEIA hwn bellach wedi'i adolygu wrth ystyried y cynllun adeiladu a newidiadau ariannol gyda chyllideb fwy Y21ain LIC. Mae'r canlyniadau cadarnhaol dal yn bodoli.

Llofnodwyd (Swyddog Arweiniol)

AB Daniel

7^{fed} Gorffennaf 2015

Dyddiad

Llofnodwyd (Prif Swyddog Addysg)

James Harris

7^{fed} Gorffennaf 2015

Dyddiad